OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2021 No. 297

# Gorchymyn Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (Cychwyn Rhif 2 a Darpariaethau Arbed) 2021

**Enwi a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (Cychwyn Rhif 2 a Darpariaethau Arbed) 2021.

(2) Yn y Gorchymyn hwn—

mae i "arolygiad arbennig" ("*special inspection*") yr un ystyr ag yn adran 21(10) o Fesur 2009;

ystyr "awdurdod Parc Cenedlaethol" ("*National Park authority*") yw awdurdod Parc Cenedlaethol ar gyfer Parc Cenedlaethol yng Nghymru;

ystyr "Deddf 2021" ("*the 2021 Act*") yw Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021;

ystyr "Mesur 2009" ("*the 2009 Measure*") yw Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009(**1**);

mae i "prif gyngor" ("*principal council*") yr un ystyr ag yn adran 171(1) o Ddeddf 2021;

ystyr "trefniant cydlafurio" ("*collaboration arrangement*") yw unrhyw drefniant, unrhyw drafodiad, neu unrhyw gytundeb arall a wnaed yn unol ag unrhyw un o'r pwerau a restrir yn adran 9(2) o Fesur 2009.

(3) At ddibenion erthyglau 4 a 6, mae arolygiad arbennig yn cychwyn—

(a) ar yr adeg y mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn hysbysu prif gyngor o dan adran 21(7)(a) o Fesur 2009, neu

(b) mewn achosion pan fo Gweinidogion Cymru wedi gofyn i Archwilydd Cyffredinol Cymru i gynnal arolygiad yn unol ag adran 21(4) o Fesur 2009, ar yr adeg y gwneir y cais hwnnw.

(**1**) 2009 mccc 2.